**CYFARFOD CYNGOR GWYNEDD, 18 MAWRTH, 2016**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**GWYBODAETH A GYFLWYNIR GAN Y CYNGHORYDD ALED EVANS**

Nodaf isod y mathau o ddiffygion sydd yn yr 'asesiad'

a) Mae holl sail yr asesiad wedi ei sylfaenu ar dderbyn mewnlifiad

b) Mae'n gwbl amlwg ei fod yn ceisio defnyddio ystadegau i gyfiawnhau'r cynllun yn hytrach na phwyso a mesur gwrthrychol

c) Roedd y dull yn ddiffygiol – gweler adroddiad Hywel Jones (Atodiad 1)

ch) Anwybyddu sylwadau  corff hyrwyddo iaith y Cyngor (Hunaniaith) (gweler Atodiad 2)

d) Rhoi cambwyslais ar nifer o ystyriaethau e.e. canran 70%, ailgartrefi, addysg Gymraeg a rhoi cambwyslais ar bwysigrwydd mesurau lliniaru sydd un ai'n heb fod yn eglur neu dra ymylol a phitw.

dd) Rhagdybio disail e.e prynwyr tai newydd a'r cyswllt â siaradwyr Cymraeg, a dim dehongli arwyddocad oedrannau a mannau geni

e) Dim dehongli cyflawn ar ffigurau Cyfrifiad 2011 ac arwyddocad y tai sbar sydd ar gael e.e. yn Nwyfor – gweler adroddiad Hanfod (Atodiad 3)